# Micro-gymwysterau ar gyfer uwchsgilio gweithwyr

# Canlyniadau arolygon cyflogwyr a PSRB

## Cefndir

Cymwysterau bach, sy'n dwyn credydau, yn seiliedig ar ddeilliannau yw micro-gymwysterau. I ennill micro-gymhwyster, caiff dysgwyr eu hasesu i ddangos eu bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu.[1] Mae Gweithgor Trydyddol Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, sef y Grŵp Diddordeb Arbennig Micro-gymwysterau (MIC.SIG) wedi'i sefydlu trwy drefniadau grant QAA gyda Medr i gynorthwyo â datblygu a rhannu arfer ym maes micro-gymwysterau sy'n datblygu'n gyflym ar draws addysg uwch ac addysg bellach. Prif amcanion MIC.SIG yw:

- Cynorthwyo'r sector trydyddol i sicrhau bod myfyrwyr a dysgwyr micro-gymwysterau'n cael profiad addysgol o'r ansawdd uchaf posibl yn unol â darpariaeth addysg drydyddol arall draddodiadol.
- Cyfrannu at ddatblygu rhagoriaeth, annibyniaeth ac ymddiriedaeth o ran sicrhau ansawdd a gwella darpariaeth micro-gymwysterau, gan ddefnyddio meysydd ffocws yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, sef safonau, arweinyddiaeth a sicrhau a gwella ansawdd, fel sylfaen i arwain gwaith MIC.SIG.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Datganiad Nodweddion Micro-gymwysterau i ddarparwyr addysg drydyddol sy'n datblygu a chynnal darpariaeth micro-gymwysterau, yn ogystal â chefnogi unrhyw ddatblygiadau pellach i'r Datganiad.

Er mwyn cefnogi ymwneud darparwyr trydyddol â chyflogwyr wrth ddatblygu a hyrwyddo micro-gymwysterau fel cyfleoedd i uwchsgilio gweithwyr, cynhaliodd MIC.SIG arolwg o gyflogwyr a chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRBs). Y nod oedd codi ymwybyddiaeth o ficro-gymwysterau ac i fesur lefel yr ymwybyddiaeth bresennol o'r cymwysterau bach hyn a'u potensial o fewn y sefydliadau hynny.

## Yr arolygon

Lansiwyd dau arolwg ym mis Mai 2025. Roedd yr arolwg cyntaf wedi'i anelu'n benodol at PSRB ac roedd ar agor am dair wythnos. Roedd yr arolwg yn cynnwys 10 cwestiwn ac yn rhoi cyfle i'r ymatebwyr gynnwys sylwadau ychwanegol os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Rhannwyd yr arolwg ymysg aelodau Fforwm PSRB QAA. Derbyniwyd 28 ymateb gan 27 o PSRB.

---

1 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Natganiad Nodweddion Micro-gymwysterau QAA a'r Canllaw Arfer Da ar gyfer Micro-gymwysterau a Chymwysterau Bach yn yr Alban.

Roedd yr ail arolwg wedi'i anelu at gyflogwyr, a chafodd ei rannu trwy aelodau MIC.SIG i'w cysylltiadau; fe'i rhannwyd hefyd trwy gylchlythyr aelodaeth Siambr Fasnach Prydain. Fel yr arolwg ar gyfer PSRB, roedd 10 cwestiwn, wyth ohonynt yr un fath â'r rhai a ofynnwyd i PSRB. Roedd yr arolwg ar agor am bum wythnos a chafwyd 66 o ymatebion.

Mae'r atodiadau yn darparu gwybodaeth am gwmnïau a sefydliadau'r ymatebwyr.

Lle gofynnwyd yr un cwestiynau, neu gwestiynau tebyg iawn, i gyflogwyr a PSRB, cyflwynir y canlyniadau ar wahân.

## Y canfyddiadau


### Ymwybyddiaeth o ficro-gymwysterau

Archwiliodd cwestiwn cyntaf y naill arolwg a'r llall ymwybyddiaeth yr ymatebwyr o ficro-gymwysterau. Roedd pob ymatebydd PSRB yn ymwybodol o ficro-gymwysterau, gyda 15% yn cyfaddef nad oeddent yn gwybod llawer amdanynt. Dywedodd ymatebwyr o wyth sefydliad (29.6%) fod eu sefydliadau'n cynnig neu'n achredu micro-gymwysterau. Roedd lefel ymwybyddiaeth cyflogwyr yn is, gyda 56% yn nodi nad oeddent erioed wedi clywed am ficro-gymwysterau. Roedd 14 o gyflogwyr yn ymwybodol ohonynt gyda dim ond pedwar o'r rhain wedi defnyddio micro-gymwysterau ar gyfer uwchsgilio gweithwyr ar gyfer datblygiad personol.

### Anghenion sgiliau

O ran anghenion sgiliau yn eu sector (PSRB) neu eu busnes (cyflogwyr), roedd ymatebwyr o blith PSRB yn ystyried bod yna anghenion sgiliau ar draws pob lefel o Lefel 2 hyd at Lefel 7, er bod sgiliau Lefel 2 wedi'u nodi fel y lleiaf angenrheidiol. Ymatebodd cyflogwyr yn yr un modd gyda Lefel 2 yn sgiliau oedd â'r angen lleiaf amdanynt fel y dangosir yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Lefelau o anghenion sgiliau




### Pwysigrwydd asesu dysgu

Er mwyn gwahaniaethu rhwng micro-gymwysterau a asesir er mwyn i sefydliadau dyfarnu ddangos tystiolaeth o gyflawniad a chyrsiau byr eraill y gellir eu hardystio ond heb yr angen i ddangos tystiolaeth bod dysgu wedi digwydd, gofynnodd yr arolwg am lefel pwysigrwydd hyfforddiant/datblygiad sgiliau a asesir.

Roedd 46% o ymatebwyr o blith PSRB yn graddio asesu fel pwysig iawn, gyda 25% yn nodi i'r gwrthwyneb nad oedd yn bwysig o gwbl. Dywedodd pedwar ymatebydd (14%) fod asesu yn weddol bwysig ac yn yr un modd roedd 14% yn ystyried bod asesu yn weddol ddibwys.

Roedd cyflogwyr yn fwy cytun ar asesu, gyda 94% yn nodi ei bod yn bwysig iawn (58%) neu'n weddol bwysig (36%) bod yr hyn maen eu gweithwyr yn ei ddysgu'n cael ei asesu. O'r pedwar cyflogwyr a ymatebodd oedd yn ystyried bod asesu yn ddibwys, nododd dau fod asesu braidd yn ddibwys, ac ymatebodd dau nad yw asesu'n bwysig o gwbl.

### Y defnydd o ficro-gymwysterau ar gyfer datblygu sgiliau

Cytunodd pob un ond dau o'r ymatebwyr o blith y PSRB (93%) y byddai micro-gymwysterau yn ddefnyddiol ar gyfer uwchsgilio/DPP gweithwyr yn eu sector; roedd un yn anghytuno ac nid oedd un yn gwybod.


Nododd 39% o gyflogwyr y byddent yn cysylltu â choleg neu brifysgol i ddiwallu anghenion DPP neu uwchsgilio gweithwyr; nododd 32% na fyddent yn cysylltu â choleg neu brifysgol ac nid oedd 29% yn gwybod. Er mwyn cadw'r arolwg yn fyr – ni archwiliwyd y rhesymau dros yr atebion hyn ymhellach.

Mae tua chwarter (23%) o'r PSRB a gymerodd ran yn yr arolwg eisoes yn achredu micro-gymwysterau ar gyfer eu sector, a byddai 18% yn fodlon achredu micro-gymwysterau a ddatblygwyd gan brifysgol neu goleg. Byddai pum PSRB yn fodlon achredu micro-gymwysterau, ond nid oes ganddynt broses ar waith ar gyfer hynny. Nododd pump o'r PSRB na fyddent yn fodlon achredu micro-gymwysterau; nododd dau fod hyn oherwydd bod y broses yn feichus neu'n hir; ni roddodd y tri arall reswm.

### Cyflwyno uwchsgilio

O ran dewis ar gyfer lleoliad ac amser astudio neu hyfforddi, cafwyd ymateb cymysg gan gyflogwyr a PSRB. Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis sawl ateb, a dewisodd rhai ar-lein a chyfuniad o ran lleoliad/dull cyflwyno, a dewisodd rhai yn ystod neu y tu allan i oriau gwaith yn ogystal â chyfuniad o'r ddau. Mae hyn wedi cymhlethu'r canlyniadau ychydig ond mae'n rhoi arwydd o'r dewis cyffredinol, fel y dangosir yn Ffigur 2. Lle rhoddir ffigurau % – mae'r rhain yn cynnwys yr holl ymatebion i'r adran berthnasol o'r cwestiwn sydd weithiau, oherwydd ymatebion lluosog, yn cyfateb i fwy na 100%.

Ffigur 2: Dewis ar gyfer lleoliad ac amser datblygu sgiliau



Er bod cyflogwyr wedi ymateb bod cyflwyno ar-lein (53%) yn eu barn nhw ychydig yn well na chyflwyno wyneb-yn-wyneb, naill ai yn eu sefydliad (50%) neu mewn coleg neu brifysgol (41%), dull cymysg oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd a ddewiswyd gan PSRB (77%) a chyflogwyr (83%) fel ei gilydd.

O ran pryd y gellir darparu hyfforddiant/astudiaeth, nododd ymatebwyr PSRB fod yn ystod oriau gwaith (50%) yn well na thu allan i oriau gwaith (36%), er mai cyfuniad o'r ddau oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd o lawer, sef 73%. Roedd yn llawer gwell gan gyflogwyr hyfforddiant/astudio a ddarperir yn ystod oriau gwaith (82%), gyda thu allan i oriau gwaith yn amhoblogaidd ar ddim ond 14%, a chyfuniad yn apelio at ychydig dros chwarter o'r ymatebwyr (28%).

### Gwerth micro-gymwysterau

Cytunodd mwyafrif y cyflogwyr (68%) y byddai eu busnes/sefydliad yn fodlon ariannu gweithwyr i ymgymryd â micro-gymwysterau sy'n diwallu anghenion eu busnes. O'r rhain, nododd 38% mai dim ond pe bai'r gost yn briodol y byddent yn ariannu datblygiad staff, a 18% dim ond pe bai cymhorthdal ar gyfer y gost honno.

O ran y gost, gofynnwyd i PSRB beth yw'r gost yn fras y byddent yn disgwyl gorfod ei thalu am gwrs micro-gymwysterau a gyflwynir yn llawn-amser am wythnos neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, e.e. 1 diwrnod yr wythnos am 5 wythnos. Nododd tua thraean o'r ymatebwyr (37%) gost rhwng £100 a £499. Roedd 23% o'r ymatebwyr yn cydnabod yr angen i dalu mwy (hyd at £999) ac roedd 9% yn teimlo bod cymaint â hyn o ddatblygiad staff yn werth £1,000 neu fwy. Dewisodd 14% gost o dan £100.

Dangosodd ymatebion y cyflogwyr eu bod yn gosod gwerth is ar ddatblygiad staff o gymharu â'r PSRB fel y dangosir yn Ffigur 3. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr o blith cyflogwyr (48%) gost rhwng £100 a £499 gyda 21% yn dewis cost islaw £100. Roedd 15% o'r ymatebwyr yn cydnabod yr angen i dalu mwy (hyd at £999) tra bod dim ond 5% oedd yn teimlo bod cymaint â hyn o ddatblygiad staff yn werth £1000 neu fwy.

Ffigur 3: Cost un wythnos o addysg/hyfforddiant




## Trafodaeth a chasgliadau

Er ei bod yn gadarnhaol bod PSRB yn ymwybodol o ficro-gymwysterau, mae ymwybyddiaeth o ficro-gymwysterau yn parhau i fod yn isel ymhlith cyflogwyr, sef 44%. Mae'n werth nodi bod Siambr Fasnach Prydain wedi cynnal arolwg micro-gymwysterau ar raddfa fawr yn 2022; canfuwyd nad oedd 80% o gyflogwyr yn ymwybodol o ficro-gymwysterau. Gall canlyniadau'r arolwg hwn ddangos bod yr ymwybyddiaeth hon wedi

cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond mae hefyd yn bosibl bod y canlyniadau wedi'u camliwio gan y dull o ymgysylltu â chyflogwyr trwy gysylltiadau mewn prifysgolion a cholegau. Serch hynny, os yw micro-gymwysterau i'w datblygu a'u cyflwyno fel ffordd o uwchsgilio gweithwyr, mae'n bwysig bod mwy o ymgysylltiad rhwng llywodraethau, darparwyr addysg drydyddol a chyrff sector â chyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogwyr er mwyn codi'r lefel hon o ymwybyddiaeth ac annog deialog â busnesau a darparwyr i ddatblygu addysg a hyfforddiant priodol.

Mae PSRB a chyflogwyr yn nodi ystod eang o anghenion sgiliau ar draws y lefelau a wasanaethir gan ddarparwyr addysg drydyddol (Lefelau 2 i 7). Fodd bynnag, mae llawer o'r drafodaeth ynghylch micro-gymwysterau wedi canolbwyntio ar addysg uwch (AU) a darparwyr AU, gan anwybyddu'r ddarpariaeth ar Lefelau 2 a 3 a ddarperir yn bennaf gan golegau. Er mwyn manteisio ar ficro-gymwysterau fel dull defnyddiol a hygyrch o gyflwyno datblygiad sgiliau fesul ychydig ar draws pob lefel a nodwyd gan gyflogwyr, mae'n bwysig bod addysg drydyddol yn cael ei chynnwys yn ehangach yn y drafodaeth am ficro-gymwysterau a bod pob darparydd addysg drydyddol (colegau a phrifysgolion) yn gallu gweld eu hunain yn chwarae rhan allweddol yn y maes datblygol hwn.

Gyda phwyslais cryf yn cael ei roi ar asesu gan gyflogwyr, dylid pwysleisio arbenigedd a phrofiad colegau a phrifysgolion mewn trafodaethau â busnesau ynghylch darpariaeth i ddiwallu anghenion sgiliau.

O fewn llawer o sectorau, mae rôl Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol yn bwysig, ac mae cyrsiau sy'n cael eu hachredu neu eu cymeradwyo gan PSRB yn aml yn cael eu hystyried yn berthnasol ac yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr. Er bod rhai PSRB eisoes yn achredu micro-gymwysterau, mae problem oherywdd ystyrir bod y broses yn hir neu'n feichus. Byddai'n ddefnyddiol i'r sector addysg drydyddol a chyrff sector priodol, fel yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA), drafod gyda PSRB sut y gellir symleiddio neu wella achrediad ac archwilio'r defnydd o ddarpariaeth 'gydnabyddedig' a gyflwynir gan ddarparwyr trydyddol ag iddynt enw da. Mae natur micro-gymwysterau yn golygu y bydd y ddarpariaeth yn fach ac felly mae angen i unrhyw broses achrediad neu gydnabyddiaeth fod yn briodol ac yn gymesur.

Er bod llawer o ficro-gymwysterau wedi'u datblygu sydd wedi'u cynllunio ar gyfer eu cyflwyno ar-lein, mae diddordeb sylweddol gan gyflogwyr mewn cyflwyno wyneb-yn-wyneb a chyflwyno cymysg. Dylai darparwyr addysg drydyddol sicrhau bod pob datblygiad micro-gymwysterau newydd yn rhoi ystyriaeth i ddewisiadau'r farchnad maent yn ei thargedu ac yn cynnig darpariaeth sy'n cyd-fynd â dulliau, amseroedd a lleoliadau dewisol eu cynulleidfa.

Mae gwerth ariannol micro-gymwysterau yn faes a fyddai'n elwa o archwiliad pellach. Arweiniodd gwerth wythnos o addysg fel y'i nodwyd yn ein harolwg at wahanol ymatebion, ond roedd mwyafrif y cyflogwyr (69%) yn gosod gwerth o lai na £500 ar hyn. O ran cost datblygu darpariaeth, yn enwedig darpariaeth a allai fod yn arbenigol iawn, efallai na fydd £500 fesul dysgwr yn ddigonol i dalu costau. Mae angen i ddarparwyr addysg drydyddol a busnesau fod yn agored ynglŷn â chostau datblygu a chyflwyno micro-gymwysterau a nifer y gweithwyr a all ymgymryd â'r dysgu. Ar gyfer rhai darpariaethau, efallai y bydd angen cyfaddawdu ar y dull cyflwyno er mwyn gwneud micro-gymwysterau yn economaidd effeithlon. Gyda bron i un o bob pump o'r cyflogwyr a ymatebodd yn nodi na fyddent ond yn talu am ddatblygiad gweithwyr pe bai cymhorthdal ar gael, mae angen tryloywder rhwng cyllidwyr a busnesau ynghylch argaeledd cymorthdaliadau, os o gwbl, ar gyfer y math hwn o ddatblygiad staff.


## Atodlen 1: PSRB a ymatebodd

Nododd y PSRB y categorïau eang canlynol o gyflogaeth fel y sector(au) y maent yn gweithredu ynddynt – gall hyd at dri chategori fod wedi'u dewis gan bob ymatebydd.

| | |
|---|---|
| Cyfrifyddiaeth, bancio, ariannol a'r gyfraith | 3 |
| Ymgynghoriaeth a rheolaeth busnes | 2 |
| Gwaith elusennol a gwirfoddol | 6 |
| Celfyddydau creadigol, dylunio a'r cyfryngau | 2 |
| Addysg | 7 |
| Peirianneg, technoleg gwybodaeth a gweithgynhyrchu | 2 |
| Yr amgylchedd ac amaeth | 2 |
| Gofal iechyd a gofal cymdeithasol | 3 |
| Lletygarwch a manwerthu | 1 |
| Hamdden, chwaraeon a thwristiaeth | 2 |
| Eiddo ac adeiladu | 3 |
| Gwasanaethau cyhoeddus a gweinyddiaeth | 1 |
| Gwyddoniaeth a fferylliaeth | 4 |

Busnesau canolig eu maint yn bennaf oedd y PSRB:

- Cwmni bach: llai na 50 o weithwyr
- Cwmni canolig: 50-249 o weithwyr
- Cwmni mawr: 250-1,000 o weithwyr
- Corfforaeth enfawr: mwy na 1,000 o weithwyr




## Atodlen 2: Cyflogwyr a ymatebodd

Nododd cyflogwyr y categorïau cyflogaeth eang canlynol fel y sector(au) y maent yn gweithredu ynddynt – gall pob ymatebydd fod wedi dewis hyd at dri chategori.

| | |
|---|---|
| Cyfrifyddiaeth, bancio, ariannol a’r gyfraith | 2 |
| Ymgynghoriaeth a rheolaeth busnes | 7 |
| Gwaith elusennol a gwirfoddol | 4 |
| Celfyddydau creadigol, dylunio a’r cyfryngau | 1 |
| Addysg | 13 |
| Ynni a chyfleustodau | 1 |
| Peirianneg, technoleg gwybodaeth a gweithgynhyrchu | 3 |
| Yr amgylchedd ac amaeth | 3 |
| Gofal iechyd a gofal cymdeithasol | 38 |
| Lletygarwch a manwerthu | 0 |
| Hamdden, chwaraeon a thwristiaeth | 7 |
| Eiddo ac adeiladu | 4 |
| Gwasanaethau cyhoeddus a gweinyddiaeth | 10 |
| Recriwtio ac AD | 3 |
| Gwyddoniaeth a fferylliaeth | 2 |
| Trafnidiaeth a chludiant | 0 |

Roedd y cyflogwyr yn bennaf o fusnesau mawr iawn:

- Cwmni bach: llai na 50 o weithwyr
- Cwmni canolig: 50-249 o weithwyr
- Cwmni mawr: 250-1,000 o weithwyr
- Corfforaeth enfawr: mwy na 1,000 o weithwyr



Cyhoeddwyd – Awst 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)